

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

05 Mawth 2020

Annwyl Mr Hedges

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 'Gynnydd Llywodraeth Cymru ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig'. Yn ei hymateb i'ch adroddiad dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddwn i'n ysgrifennu atoch ynglŷn ag Argymhelliad 6, a oedd yn ymwneud â materion staffio'r Gwasanaeth Sifil.

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd wedi bachu ar y cyfle i adolygu lefelau staffio yn y Gangen Ecosystemau Morol a Bioamrywiaeth, yn flaenorol y Gangen Cadwraeth Forol, gan gydnabod bod y lefelau staffio yn y gangen wedi bod yn heriol yn ddiweddar, yn rhannol oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i'n gwaith ni ar Brexit. Mae cyfrifoldeb am bolisiâu a staff ar gyfer Strategaeth Forol y DU a sbwriel môr wedi cael ei roi i'r gangen yn ddiweddar, gan ei galluogi i ganolbwyntio ar iechyd cyffredinol a chydnerthedd amgylchedd morol Cymru a'r ffordd mae'n gweithredu.

Mae strwythur y Gangen isod:

- 1 Swydd Gradd 7 (G7)
- 1 Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)
- 4 Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)
- 1 Swyddog Gweithredol (EO)
- 1 Swydd Cymorth Tîm



BUDDSODDWRYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**


Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Ar hyn o bryd nid yw'r Is-adran ar ei llawn gryfder, gyda phedwar o'r wyth aelod y staff y cytunwyd arnynt ar waith erbyn hyn. Hoffwn roi sicrwydd ichi fy mod yn deall yn llwyr bwysigrwydd y gwaith hwn a byddaf yn rhoi blaenoriaeth i staffio'r gangen hon.

Mae'n werth nodi bod natur gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn drawsbynciol gyda staff o'r Is-adran gyfan, er enghraifft Cangen Gwyddoniaeth a Thystiolaeth y Môr a'r Gangen Rheoli Adnoddau Pysgodfeydd a Pholisïau, hefyd yn helpu gyda'r gwaith o reoli amgylchedd morol Cymru mewn modd cynaliadwy.

Yn gywir, 

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>